



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018
DYDDIAD	13 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

SO30C – Gosod OS yn Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig

Cyfraith yr UE sy'n cael ei diwygio

Cyfarwyddeb Gwasanaethau yr UE (2006/723/EC), sy'n cael ei weithredu yn neddfwriaeth y DU gan Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw'r OS yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Diben y diwygiadau

Mae hwn yn OS cywiro ar gyfer y senario pan fydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ac ni fyddai bellach wedi ei rhwymo i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau.

Yr ymagwedd i gywiro'r diffygion yn y Rheoliadau yw y bydd busnesau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cael eu trin yn yr un modd â darparwyr gwasanaethau trydydd gwledydd eraill ac ni fyddant bellach y cael hawliau mynediad a mesurau diogelu ffafriol o fewn y DU. Byddai'n hanfodol sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu o dan senario fasnachu Sefydliad Masnach y Byd (WTO). Wedi hynny, caiff Awdurdodau cymwys reoleiddio busnesau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn yr un modd ag y maent yn rheoleiddio darparwyr gwasanaethau trydydd gwledydd.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments?keywords=&laid_date%5Bfrom%5D=&laid_date%5Bto%5D=&sifting_status%5B%5D=open

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Fel rheol, lle bo'r pwerau yn nwylo Gweinidogion Cymru, mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru mai Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am ddeddfu dros Gymru. Er hynny, yn wyneb amgylchiadau eithriadol ymadawiad y DU â'r UE, mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod yr angen i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn rhai meysydd datganoledig er mwyn cael llyfr statud cwbl weithredol ar y diwrnod ymadael.

Felly mae Gweinidogion Cymru yn cydsynio i Reoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018 ar yr achlysur hwn.